HUGHES, RICHARD (c. 1565 - 1619), Cefn Llanfair, Sir Gaernarfon, bardd

Enw: Richard Hughes
Dyddiad geni: c. 1565
Dyddiad marw: 1619
Rhiant: Huw ap Rhisiart ap Dafydd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Cartref: Cefn Llanfair
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David Gwenallt Jones

Mab Huw ap Rhisiart ap Dafydd o Gefn Llanfair. (Nid yr un oedd Huw Ll n â Huw ap Rhisiart, er bod yr olaf hefyd yn fardd.) Aeth i Lundain, ac ymunodd â'r fyddin ac yn ôl un englyn o'i waith gellir casglu iddo fod yn ymosodiad llwyddiannus y Prydeinwyr yn 1596 ar borthladd Cadiz yn Sbaen, yn un o 150 o Gymry Sir Gaernarfon yn yr ymgyrch hwnnw. Gwyddom hefyd iddo fod yn ' pedisequus ' y frenhines Elizabeth, a'r brenin Iago ar ôl hynny, ac iddo gael blwydd-dâl o £50 ar ôl marwolaeth John Hedde.

Nid oes nac awdl na chywydd ar glawr o'i waith, ond y mae rhai englynion. Ond ei gerddi rhydd yw ei gerddi pwysicaf. Ceir ei waith yn *Cymdeithas Llên Cymru*, i, *Carolau Richard Hughes*, a *Cymdeithas Llên Cymru*, v-vi, *Caniadau yn y Mesurau Rhyddion*, lle y ceir ar dud. 49 ganddo dri phennill o faled, ' Bywyd y Bugail '; gweler *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, ii, 243, ' An Early Printed Welsh Ballad.' Ceir ei waith hefyd yn *Cynfeirdd Lleyn*, *Canu Rhydd Cynnar* (T. H. Parry-Williams), ac yn *Bulletin of the Board of Celtic Studies* iii, 128, ' Cyfeiriadau at Richard Hughes, Cefn Llanfair.' Bardd serch ydoedd; bardd serch a ragflaenodd Huw Morys a'i ysgol. Tri mesur sydd ganddo yn ei gerddi, ac y mae'r rhan fwyaf ohonynt ar ffurf ymddiddan. Y mae blas gwlad ar ei ganu. Bu farw rhwng dechrau Chwefror a dechrau Mai 1619; claddwyd ef yn eglwys Llanbedrog, ac ysgrifennodd Gruffydd Phylip farwnad arno (Y Cymmrodor, xlii, 199).

Awdur

David Gwenallt Jones, (1899 - 1968)

Ffynonellau

T. Parry, 'Tri Chyfeiriad at William Salesbury,' yn *Bulletin of the Board of Celtic Studies* ix, 108

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 224

Darllen Pellach

Nesta Lloyd (gol.), *Ffwtman hoff: cerddi Richard Hughes Cefnllanfair* (Cyhoeddiadau Barddas 1998)

Dolenni Ychwanegol

English Broadside Ballad Archive: Byd Y bigail

VIAF: 33952158

Wikidata: Q19325211

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu